# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd John Griffith (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Alun Mummery, Nicola Roberts, Peter Rogers, Dafydd Rhys Thomas<br><br>Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr (ar gyfer eitem 3)<br>Dirprwy Brif Weithredwr (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau)<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro (ar gyfer eitem 4)<br>Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh (ar gyfer eitem 2)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifo (BHO)<br>Pennaeth Archwilio Mewnol (MH)<br>Rheolwr Archwilio Mewnol (SP)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Richard Owain Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Clare Edge (Rheolwr Archwilio Ariannol – Deloitte) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION CYFARFOD 25 GORFFENNAF, 2016**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

Yn codi –

- **Trefniadau Adfer TGCh ar ôl Trychineb**

Adroddodd y Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh ar y cynnydd hyd yn hyn mewn perthynas â threfniadau adfer TGCh ar ôl trychineb gyda'r nod o sicrhau yn y pendraw bod gan y Cyngor ganolfan bwrpasol oddi ar y safle ar gyfer storio data wrth gefn fydd yn caniatáu adfer systemau busnes hanfodol pe digwydd llifogydd neu dân neu unrhyw drychineb arall. Dywedodd y Swyddog nad yw'r gallu datblygedig hwnnw gan y Cyngor ar hyn o bryd a bod gwybodaeth a gedwir yn yr unig ganolfan ddata sydd ganddo yn cael ei gadw wrth gefn drwy ddulliau eraill. Yn ogystal, nid yw'r offer y mae systemau'r Cyngor yn dibynnu arno yn ddigon cadarn, ac er bod y systemau storio eu hunain yn gadarn ac wedi

cael eu rheoli'n ofalus yn y gorffennol, mae'r trefniadau presennol yn agored i risg a phwyntiau methiant unigol.

Esboniodd y Swyddog y gwelliannau a wnaethpwyd i'r ganolfan ddata bresennol o ganlyniad i gynyddu'r buddsoddiad mewn TGCh yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn gwella isadeiledd a systemau busnes yn ogystal â chynhwysedd TGCh cyffredinol o fewn y Cyngor. Yn ogystal buddsoddwyd mewn technolegau gwasanaeth newydd i gymryd lle technolegau sydd wedi dyddio; gosodwyd system storio newydd o'r math diweddaraf yn lle'r hen system ac mae systemau storio data wrth gefn newydd yn cael eu gweithredu gyda'r nod ehangach o symud tuag at economi fwy digidol yn Ynys Môn er mwyn gwella'r modd y cyflenwir gwasanaethau i'r trigolion.

Dywedodd y Swyddog bod y technolegau newydd, a brynwyd yn benodol i redeg ar draws y ddwy ganolfan ddata, wedi eu cynllunio er mwyn cael gwared â phob pwynt methiant unigol sy'n golygu bod trefniadau TGCh y Cyngor mewn llawer gwell sefyllfa o gymharu â 12 mis yn ôl. Nid oes costau gorbenion ychwanegol oherwydd bod cynllun y technolegau newydd yn cyrraedd y gofynion arfer gorau a dilynwyd arferion caffael da wrth eu prynu. Mae'r technolegau hyn i fod i ddarparu cadernid ar draws y ddwy ganolfan ddata heb greu cost ychwanegol a byddant yn rhoi sylfaen gadarn i'r isadeiledd craidd er mwyn cefnogi uchelgais digidol y Cyngor yn y dyfodol e.e. App Môn. Nod yr ymdrechion hyn yn y pendraw fydd adeiladu ail gyfleuster fydd yn cynnig y datrysiad gorau posib ar gyfer storio data wrth gefn a dyma'r dasg a roddwyd i'r Gwasanaeth TGCh a rhoddwyd cyllid cyfalaf i'r gwasanaeth er mwyn cyflawni hynny. Mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau, a bydd y ddwy ganolfan ddata gyda'i gilydd yn gweithredu, ac yn cael eu rheoli, fel un endid er y byddant mewn lleoliadau ar wahân. Golyga hyn y byddai'r Cyngor, petai'n colli defnydd y ganolfan ddata bresennol, yn gallu parhau i redeg ei holl fusnes o'r ganolfan ddata arall, ac i'r gwrthwyneb, am y rheswm y bydd yr holl dechnolegau wedi eu cynllunio i redeg ar draws y ddwy ganolfan ac yn gwarantu drwy hynny argaeledd systemau busnes y Cyngor y tu hwnt i'r busnesau craidd hollbwysig. Mae hyn yn opsiwn mwy economaidd a hyblyg na defnyddio datrysiad storio data wrth gefn gan ddarparwr trydydd parti gan na fyddai'r olaf, yn ôl pob tebyg, yn gallu darparu cadernid ar gyfer pob un o'r 112 system busnes sydd gan y Cyngor. Y sefydliad fydd yn penderfynu pa systemau i'w blaenoriaethu petai trychineb yn digwydd a bydd hynny'n rhan o'r Cynllun Adfer ar ôl Trychineb sydd bellach wedi ei lunio. Bydd y systemau busnes a flaenoriaethir yn seiliedig ar waith a wneir gyda gwasanaethau unigol ond bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan yr UDA, gan gymryd i ystyriaeth galwadau tymhorol a natur y digwyddiad fydd felly'n caniatáu i'r Cyngor ymateb i alwadau sy'n newid o fewn y sefydliad.

Dywedodd y Swyddog y bydd y cyfleuster newydd, unwaith y bydd yn weithredol, yn cael gwared â'r pwyntiau methiant unigol sydd yn weddill. Bydd yn darparu ar gyfer adfer ar ôl trychineb, creu data wrth gefn ac yn hollbwysig, bydd yn caniatáu i wasanaethau'r Cyngor weithredu'n ddi-dor. Cynllunnir systemau hanfodol fel eu bod yn cael eu cyflenwi ar draws y ddwy ganolfan ddata, ni fydd pwynt methiant unigol a bydd y system yn gallu ymateb i alwadau. Bwriedir i'r trefniadau newydd fynd yn fyw ym mis Rhagfyr, 2016 ond mae'n bosib y gall eu gweithredu lithro i'r Flwyddyn Newydd.

Ystyriodd y Pwyllgor yr wybodaeth a gyflwynwyd gan wneud y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod sylw priodol yn cael ei roi i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Adfer TGCh ar ôl Trychineb, bod cynnydd da wedi ei wneud a bod Rheolwyr yn y broses o gwblhau trefniadau i sicrhau bod systemau busnes y Cyngor yn cael eu hamddiffyn a'u bod yn parhau'n hyfyw petai'r risgiau hynny'n dod yn ffaith.
- Nododd y Pwyllgor bod y technolegau a'r systemau newydd wedi eu caffael yn effeithlon gan ddilyn arferion da wrth brynu ac na fyddant yn creu costau gorbenion ychwanegol. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh bod y Strategaeth TGCh

hefyd yn rhoi sylw i herio a rhesymoli portffolio meddalwedd y Cyngor ac mae'r costau sy'n gysylltiedig â hynny lawer iawn uwch na chostau isadeiledd a disgrifiodd y camau sy'n cael eu cymryd i wneud hynny.

- Nododd y Pwyllgor bod y camau sy'n cael eu cymryd i uwchraddio systemau electronig a TGCh yn cyfrannu at gyflawni un o amcanion strategol allweddol y Cyngor sef digideiddio a gwella argaeledd gwasanaethau.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch hirhoedledd y technolegau a gafwyd a'r strategaeth ar gyfer eu hailgyflenwi mewn modd economaidd. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid TGCh y bydd y gwasanaeth yn gwneud bid i'r rhaglen gyfalaf bob blwyddyn er mwyn ailosod 25% o'r holl isadeiledd craidd fel bod y gwasanaeth wedi adnewyddu'r holl isadeiledd dros gyfnod o 4 mlynedd. Mae'r gwasanaeth TGCh yn ymwybodol o'r gofynion sydd ar y gyllideb gyfalaf ac felly bydd yn targedu buddsoddiad er mwyn sicrhau ei fod yn cyfrannu tuag at gyflwyno rhyw fath o effeithlonrwydd a gwelliant rhywle arall o fewn y Cyngor.

**Penderfynwyd derbyn yr wybodaeth a nodi'r cynnydd a wnaed.**

- **Adroddiad Cynnydd Archwiliad Mewnol**

Mewn perthynas ag angen y Tîm Rheoli i sicrhau cyfathrebu amserol ac effeithiol er mwyn darparu darlun clir o ba mor dda mae gwasanaethau'n gweithredu argymhellion archwiliad mewnol cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod y mater yn ymwneud â'r Tîm Rheoli'n sicrhau y caiff y system 4 action sy'n cofnodi gweithrediad argymhellion archwiliad mewnol ei ddiweddaru mewn modd amserol a phriodol fel bod y Rheolwr Archwilio Mewnol yn cael darlun clir o'r sefyllfa ac yn gallu cyflwyno'r wybodaeth honno'n gywir i'r Pwyllgor Archwilio drwy gyfrwng adroddiad cynnydd chwarterol. Dywedodd y Swyddog fod y neges ynglŷn â'r angen am eglurder yn yr hyn sy'n cael ei adrodd drwy'r system 4 action wedi ei drosglwyddo i'r Penaethiaid Gwasanaeth yn y cyfarfod Penaethiaid a gobeithir yn awr y bydd y neges yn cael ei rhaeadru drwy'r strwythur rheoli.

**Derbyniwyd a nodwyd yr wybodaeth gan y Pwyllgor.**

## 3 DATGANIAD O'R CYFRIFON 2015/16 AC ADRODDIAD ISA 260

- Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Datganiad o'r Cyfrifon 2015/16 a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2015/16 i'r Pwyllgor.

Adroddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 bod cyfrifon drafft 2015/16 wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 27 Mehefin, 2016 a'u bod, yn dilyn hynny, wedi eu cyflwyno i gael eu harchwilio'n allanol gyda'r broses honno wedi digwydd yn ystod misoedd yr haf gyda'r rhan fwyaf o'r gwaith wedi'i orffen. Mae nifer o newidiadau i'r drafft wedi eu hymgorffori i'r cyfrifon ac mae manylion wedi eu cynnwys yn Adroddiad ISA 260 yr Archwiliwr; rhoddir crynodeb o'r newidiadau mwyaf sylweddol i'r datganiad drafft ym mharagraff 3.2 yr adroddiad. Dywedodd y Swyddog bod gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu argymell bod y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol ond mae un mater sydd angen ei ddatrys cyn y gellir gwneud hynny.

Esboniodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 fod yr archwilwyr, wrth archwilio'r datganiadau ariannol, yn ymgymryd â phrofion sylweddol mewn perthynas â rhai adrannau o'r cyfrifon. Yn ystod y broses samplo, mae'r archwilwyr wedi adnabod tri ased isadeiledd gwerth cyfanswm o £5.336m y maent yn gofyn am dystiolaeth ar eu cyfer er mwyn cadarnhau eu bodolaeth a'u perchnogaeth. Cadarnhaodd y Swyddog bod gwerth un o'r asedau y mae angen tystiolaeth ar ei gyfer yn cael ei ddangos fel £4m yn y cyfrifon,

ac oherwydd natur hanesyddol yr ased, nid yw'r Gwasanaeth Cyllid hyd yma wedi llwyddo i ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol yn rhannol oherwydd bod systemau wedi newid dros amser ac yn rhannol oherwydd problemau cael mynediad at gofnodion papur gan fod cyfyngiad amser ar gadw'r cofnodion hynny. Er bod ymdrechion i ddatrys y broblem yn parhau a rhagwelir y bydd y mater yn cael ei ddatrys yn fuan, nid yw'r Gwasanaeth ar hyn o bryd yn gallu darparu'r sicrwydd angenrheidiol i'r archwilwyr mewn perthynas â'r eitem hon er mwyn galluogi iddynt ardystio'r cyfrifon yn ddiamod. Golyga hyn nad yw'r Pwyllgor Archwilio mewn sefyllfa yn y cyfarfod heddiw i argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cyfrifon yn y cyfarfod ar 27 Medi. Y rheswm am hyn yw y gall y cyfrifon newid yn ddibynnol ar sut fydd y mater sy'n sefyll yn cael ei ddatrys a'r canlyniad o safbwynt beth fydd yn cael ei ddangos yn y cyfrifon. Yn yr amgylchiadau, hynny gallai'r Awdurdod oedi cyn cymeradwyo'r cyfrifon hyd nes y bydd yr archwilwyr wedi derbyn y sicrwydd angenrheidiol ond byddai hynny'n golygu cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor, neu byddai modd i'r archwilwyr gynhyrchu adroddiad amodol. Yn dilyn trafodaethau â'r Cadeirydd a'r archwilwyr, mae'r Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr archwiliad ariannol wedi cadarnhau ei fod yn fodlon â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatrys y mater ac i ddarparu'r sicrwydd sydd ei angen ar yr archwilwyr, felly argymhellir bod y Pwyllgor yn dirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i gymeradwyo'r cyfrifon i'r Cyngor unwaith y bydd y mater sy'n sefyll wedi ei ddatrys a bod yr archwilwyr yn fodlon â'r sicrwydd a gafwyd ynghylch y mater ac mewn sefyllfa i gyhoeddi barn ddiamod.

Nododd y Pwyllgor y sefyllfa ac wedi gofyn am eglurhad pellach am y mater dan sylw, hyd a lled y sicrwydd sydd ei hangen ar yr archwilwyr a'r goblygiadau, derbyniwyd yr argymhelliad a gynigiwyd bod y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn cael eu hawdurdodi i gydlynu â'r Gwasanaeth Cyllid a'r archwilwyr o ran cadarnhau'r cyfrifon ac yn dilyn hynny i'w cymeradwyo i'r Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod y Cod Ymarfer presennol y mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol ag o yn gofyn bod gwerth asedau isadeiledd yn cael eu dangos ar y fantolen, ac oherwydd mai asedau isadeiledd ydynt golyga hynny bod rhaid adlewyrchu'r gwariant cyfalaf arnynt yn ystod y flwyddyn. Gan fod y gwariant yn parhau o un flwyddyn i'r llall, mae gwerth yr asedau'n cynyddu. Mae newid yn y rheoliadau'n golygu y bydd rhaid i'r Awdurdod ail brisio ei asedau isadeiledd y flwyddyn nesaf a bydd y ffigwr ailbrisio'n cael ei ddangos yn y cyfrifon. Bydd manylion ategol ar gael yn rhwydd sy'n golygu ei bod yn annhebygol y bydd y mater penodol a gododd yn 2015/16 yn digwydd eto.

Cadarnhaodd Ms Clare Edge, Rheolwr Archwilio Ariannol, fod y mater wedi codi drwy gynnal profion samplo a bod yr archwilwyr wedi ceisio sefydlu beth oedd yr eitemau isadeiledd yn y sampl, yn nhermau eu bodolaeth a'u perchnogaeth ac, o ystyried bod balans un o'r eitemau yn £4m, byddent wedi disgwyl gweld tystiolaeth archwilio yn cadarnhau eu bod yn wir asedau.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn a nodi'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2015/16 yn ddibynnol ar ddatrys y mater sy'n sefyll fel y cafodd ei adrodd gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.**
- **I ddirprwyo awdurdod i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd i argymell y Datganiad o Gyfrifon 2015/16 ar gyfer ei gymeradwyo gan y Cyngor ar ôl derbyn cadarnhad gan yr archwilwyr bod y mater sy'n sefyll yn y cyfrifon wedi'i ddatrys yn foddhaol a'u bod yn gallu cyhoeddi barn ddiamod.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar gyfer 2015/16 a chyfeirio'r ddogfen at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.**

- Cyflwynwyd adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar yr archwiliad a gynhaliwyd ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2015/16 (ISA 260) er ystyriaeth gan y Pwyllgor.

Cadarnhaodd Ms Clare Edge, Rheolwr Archwiliad Ariannol, bod yr Archwiliwr Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwiliad diamod ar y datganiadau ariannol, yn ddibynnol bod y gwaith sy'n sefyll yn cael ei gwblhau'n foddhaol gan gynnwys y mater y cyfeiriwyd ato uchod.

Cadarnhaodd y Swyddog y canlynol hefyd:

- Nad oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y datganiadau ariannol.
- Bod camddatganiadau a gywirwyd gan y Tîm Rheoli yn cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio yn unol â chyfrifoldebau'r Pwyllgor dros y broses adrodd ariannol (Atodiad 3 yn yr adroddiad).
- Nid oes materion yn codi o'r risgiau archwilio fel y cawsant eu hadnabod yn y Cynllun Archwilio Ariannol heblaw am un addasiad mewn perthynas ag incwm grant (Atodiad 3) ac un sylw rheoli (Atodiad 4).
- Nid oes pryderon am agweddau ansoddol arferion cyfrifo ac adrodd ariannol yr Awdurdod. Fodd bynnag, gwnaethpwyd argymhelliad ynglŷn â gwella ansawdd a phrydlondeb peth tystiolaeth archwilio gefnogol (Atodiad 4).
- Ni ddaethpwyd ar draws unrhyw broblemau arwyddocaol yn ystod yr archwiliad.
- Ni chafodd unrhyw faterion arwyddocaol eu trafod neu lythyru yn eu cylch gyda'r Tîm Rheoli y mae angen eu hadrodd i'r Pwyllgor.
- Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i amryfusedd yn y broses adrodd ariannol y mae angen eu hadrodd.
- Ni adnabuwyd unrhyw wendidau o bwys o ran rheolaeth fewnol er yr adnabuwyd sawl maes ble gellid gwella rheolaeth fewnol.
- Nid oes unrhyw faterion eraill y mae safonau archwilio'n nodi'n benodol bod rhaid eu cyfleu i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethiant.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys.**

**4 LLYWODRAETHU GWYBODAETH - ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (UBRG) AM 2015/16**

Cyflwynwyd adroddiad Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y Cyngor yn amlinellu'r prif faterion llywodraethu gwybodaeth ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill, 2015 hyd at 31 Mawrth, 2016 ynghyd â'r blaenoriaethau presennol er ystyriaeth gan y Pwyllgor.

Adroddodd yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (UBRG) bod disgwyl i'r UBRG gynhyrchu adroddiad blynyddol. Yr adroddiad a gyflwynir yw'r adroddiad cyntaf o'i fath gan yr UBRG yn Ynys Môn a'i bwrpas yw cloriannu'r sefyllfa yn y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cynnwys crynodeb o faterion llywodraethu gwybodaeth sydd wedi codi yn y gorffennol yn ogystal â mapio'r camau a gymerwyd hyd yma a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Cyfeiriodd y Swyddog yn benodol at y canlynol:

- Y digwyddiadau diogelwch data yn ystod y cyfnod wedi eu categoreiddio yn ôl eu difrifoldeb. Cyfeirir at nifer y digwyddiadau a gofnodwyd yn Atodiad B ac mae'n cynnwys 6 digwyddiad Lefel 0 i Lefel 1 (defnyddiwyd methodoleg digwyddiad diogelwch data ar gyfer y digwyddiadau a phenderfynwyd nad oedd angen adrodd am 5 o'r digwyddiadau hyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac roedd 1 yn ddigwyddiad "cael a chael"). Ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau Lefel 2 (digwyddiadau sy'n rhaid eu hadrodd i'r SCG a rheolyddion eraill).

- Bod y Cyngor yn monitro Dangosyddion Perfformiad penodol sy'n gysylltiedig â Llywodraethu Gwybodaeth, rhai ar sail fisol ac eraill ar sail chwarterol. Gweithredir ar y rhain ar sail eithriad ac fe'u defnyddir i symud materion ymlaen fel bo'r angen i sylw'r UDA.
- Sefydlwyd rolau Llywodraethu Gwybodaeth penodol o fewn y Cyngor sy'n cynnwys Perchnogion Asedau Gwybodaeth a Gweinyddwyr Asedau Gwybodaeth ac mae eu cyfrifioldebau hwy yn cael eu crynhoi ym mharagraff 4 yr adroddiad. Maent wedi derbyn hyfforddiant arbenigol er mwyn ymgymryd â'r gwaith.
- Mae'n rhaid i holl staff y Cyngor dderbyn hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth sylfaenol sy'n cael ei ddiweddaru bob dwy flynedd. Dechreuodd yr hyfforddiant hwn ym mis Mehefin 2014 a dilynwyd proses i sicrhau fod pob aelod o staff yn cymryd rhan. Mae canran cydymffurfiaeth yn agos i 90%.
- Sefydlwyd ystod o bolisïau LIG allweddol (cyfeirir atynt ym mharagraff 5.2 yr adroddiad) ac mae copïau ohonynt i'w cael ar fewnrwyd y Cyngor. Mae'r Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol (BLIGC) yn adolygu a diweddaru'r polisïau hyn yn rheolaidd. Yn dilyn adnabod cyllid mae'r Cyngor erbyn hyn wedi caffael ac yn y broses o weithredu system rheoli polisi fydd yn rhoi sicrwydd i'r BLIGC bod y polisïau LIG allweddol yn cael eu darllen, eu deall a'u derbyn yn ffurfiol gan aelodau staff unigol. Bydd y system rheoli polisi yn cael ei defnyddio'n ehangach, a'r syniad yw y bydd llyfrgell ddigidol o bolisïau cyfredol ar draws pob gwasanaeth corfforaethol ar gael i staff.
- Mae cydymffurfiaeth diogelu data y Cyngor yn ei gyfanrwydd wedi cael ei asesu fel risg canolig gan Archwilio Mewnol. Mae'r UBRG yn anelu at gynhyrchu Datganiad Rheoli yn ystod y 3 mlynedd nesaf yn ddibynnol ar weithredu a phrofi'r camau a ddisgrifir yn yr adroddiad yn llwyddiannus. Y prif ffactor mewn perthynas â gwella lefel risg ganolig y Cyngor yw'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth gan mai hon yw'r adnodd allweddol ar gyfer deall pa wybodaeth a gedwir gan sefydliad a'r risgiau allweddol cysylltiedig. Nid yw Cofrestr y Cyngor wedi datblygu i'r graddau bod gwybodaeth ddigonol am y risgiau i'r asedau yn cael eu casglu ar lefel fanwl. Bydd rhaid gwneud y gwaith o fewn yr adnoddau presennol gan ddilyn dull sy'n seiliedig ar risg.
- Cyfeiria'r adroddiad hefyd at y gwaith sy'n gysylltiedig â Swyddfa'r Comisiynwyr Arwylio a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio.
- Mae'r UBRG yn gallu dod i'r canlyniad bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer LIG a chydymffurfiaeth diogelu data yn rhesymol effeithiol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol –

- Nododd y Pwyllgor bod llawer iawn o gynnydd wedi digwydd o ran gweithredu gwaith archwiliad SCG a gweithgarwch gorfodi, er bod y gwaith wedi cychwyn o lefel isel iawn.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad, mewn amgylchedd ble mae pwyslais cynyddol ar ddigideiddio gwasanaethau ac ar ryngweithio'n ddigidol, e.e. drwy ddefnyddio Skype i ymgysylltu â chleientiaid a defnyddwyr gwasanaeth, am y camau sy'n cael eu cymryd i roi mesurau diogelu yn eu lle wrth weithredu arferion newydd o'r fath. Dywedodd yr UBRG y byddai'r gwasanaethau unigol yn arwain gan dderbyn cyngor gan yr UBRG a TGCHh ac yna ei adrodd drwy'r BLICG.
- Nododd y Pwyllgor er bod llawer wedi ei wneud ar lefel gorfforaethol i fynd i'r afael â gwendidau yn y trefniadau LIG yn yr Awdurdod, mae nifer o achosion o dramgwyddo'n gallu codi oherwydd esgeulustod ac arfer gwael. Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod yr un lefel o sylw yn cael ei roi i sicrhau fod y pethau sylfaenol yn eu lle e.e. bod mecanwaith ar gyfer gwirio a sicrhau cywirdeb e-byst/cyfeiriadau a gwybodaeth a gedwir ar gronfeydd data. Dywedodd yr UBRG bod SCG yn cydnabod bod gwallau dynol yn bosib ac nad oes modd cael gwared â hynny'n gyfan gwbl; y disgwyl felly yw bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol yn hytrach na pheidio â chael yr un achos o dramgwyddo data ac i ddysgu o unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd. Er nad oes yr un system all ddileu'r holl risgiau, y nod ddylai fod i reoli'r risgiau a'i lleihau i'r lefel isaf bosib ac i lefel y gall yr Awdurdod ei goddef ar sail weithredol. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151

fod y Cyngor wedi rhyddhau cyllid i wella prosesau busnes ac y cymeradwywyd dau fid, un i gysylltu systemau'r Awdurdod i'r mynegai eiddo cenedlaethol (rhestr o rifau cyfeirnod eiddo ar gyfer pob cyfeiriad yn y DU) fydd yn arwain at wella cywirdeb, ac un i weithredu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmer sydd hefyd yn gwirio gwybodaeth e.e. cyfeiriadau.

• Nododd y Pwyllgor bod amrywiaeth rhwng gwasanaethau yn nhermau llywodraethu gwybodaeth a diogelu data a gofynnwyd am sicrwydd ynghylch y camau a gymerir i sicrhau'r un lefel o fedrusrwydd a chydymffurfiaeth ar draws yr holl wasanaethau. Cadarnhaodd y UBRG bod lefel medrusrwydd a chydymffurfiaeth yn gwahaniaethu rhwng gwasanaethau gyda rhai gwasanaethau'n well am wneud rhai pethau na'i gilydd e.e. oherwydd eu bod yn aml yn gymhleth, mae ymateb i geisiadau am fynediad pwnc yn gallu bod yn broses araf yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ond y consensws yn y cyswllt hwnnw yw bod cywirdeb yn well na chyflymder er mwyn lleihau'r risg bod gwybodaeth sensitif yn cael ei rannu a pherson anawdurdodedig drwy amryfusedd.

**Penderfynwyd derbyn Adroddiad Blynyddol yr UBRG ar gyfer 2015/16 ac i nodi y lefelau cydymffurfiaeth a risg y manylir arnynt yn yr adroddiad yn unol â chanfyddiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH I DDILYN.**

**5 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol ar waith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Awst, 2016 er ystyriaeth gan y Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o'r holl aseiniadau archwilio a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn; lefel y sicrwydd a ddarparwyd; amserlen archwiliadau dilyn i fyny yr ymgymerwyd â hwy ynghyd â rhestr o'r holl argymhellion Archwilio Mewnol sydd angen sylw.

Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio Mewnol bod lefelau perfformiad yr Adain Archwilio Mewnol ar darged. Amlygodd y Swyddog y ffaith bod y raddfa gweithredu ar gyfer argymhellion graddfa Uchel a Chanolig wedi codi i 83% erbyn hyn.

Nododd y Pwyllgor y diweddariad a gynhwyswyd yn yr adroddiad gan gynnig y sylwadau canlynol:

• Nodwyd a chroesawyd perfformiad yr adain Archwilio Mewnol hyd yma yn erbyn y DP allweddol a gofnodir yn Atodiad A yr adroddiad.

• Nododd y Pwyllgor yr adrannau hynny yn Atodiad D mewn perthynas â rheolaethau allweddol Budd-dal Tai a Diogelu Corfforaethol ble'r barnwyd bod lefel sicrwydd yn gyfyngedig a chodwyd pryder penodol bod y prosesau a dulliau rheoli gwariant mewn perthynas â'r olaf yn cael eu barnu'n annigonol mewn maes sydd â risg arbennig o uchel sy'n ymwneud â gofalu am a diogelu unigolion bregus. Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) fod y Dirprwy Brif Weithredwr (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) wedi cyfarfod â phob Pennaeth Gwasanaeth i symud diogelu corfforaethol yn ei flaen. Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol sgriwtineiddio'r canfyddiadau ymhellach mewn perthynas â diogelu corfforaethol.

• Nododd y Pwyllgor bod materion rheoli sylfaenol penodol, e.e. cwblhau cais am archeb cyn derbyn y nwyddau, yn cael eu hadnabod yn rheolaidd yn sgil canfyddiadau adolygiadau archwilio yn arbennig mewn perthynas ag ysgolion. Er y derbynnir bod rhai arferion yn cymryd amser i sefydlu, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch a oes angen monitro ehangach o safbwynt canfyddiadau adolygiadau archwilio mewn perthynas â rhai sefydliadau, e.e. ysgolion. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ei bod yn anodd sicrhau bod pob sefydliad yn glynu'n gaeth i'r rheolau yn arbennig yng nghyd-destun ysgolion gan fod adnoddau, cymhwysedd a phwysau yn

amrywio o ysgol i ysgol. Mae gan gyrff llywodraethu rôl allweddol o ran monitro arferion a sicrhau bod penaethiaid yn cael eu gwneud yn atebol am sicrhau cydymffurfiaeth.

- Nododd y Pwyllgor bod argymhelliad yr archwiliad mewnol mewn perthynas â staff asiantaeth yn parhau i fod ar y rhestr o faterion sy'n sefyll a gofynnwyd am sicrwydd bod y drefn a gytunwyd arni ar gyfer cyflogi staff asiantaeth yn cael ei dilyn. Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod hyn yn digwydd yn unol â'r argymhelliad a bod angen diweddaru'r system er mwyn adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei weithredu. Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol y byddai'n codi'r mater gyda'r Prif Weithredwr.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol, mewn perthynas â'r meysydd hynny yn Atodiad D ble'r oedd canlyniadau'r adolygiad archwilio yn dangos barn o sicrwydd cyfyngedig neu ble mae cynnydd o ran gweithredu yn ymddangos yn araf, bod gwasanaethau yn derbyn mwy o amser i ymateb i ganfyddiadau archwilio mewnol. Os nad yw'r argymhellion wedi eu gweithredu i lefel dderbyniol ar ddiwedd yr adolygiad dilyn i fyny mewn chwe mis bydd y diffyg cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio sydd â'r gallu i wneud y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn atebol. Mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol canfu'r adolygiad, er bod y sylfeini mewn lle, nid yw amcanion diogelu wedi eu gwreiddio'n gyson ar draws prosesau cynllunio busnes gwasanaethau.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn cymryd sicrwydd o'r wybodaeth a ddarparwyd ynghylch y prosesau rheolaethau mewnol, rheoli risgiau a llywodraethiant corfforaethol sydd ar waith yn ddarostyngedig i sgriwtineiddio Diogelu Corfforaethol ymhellach.**

**CAMAU GWEITHREDU SY'N CODI: Canfyddiadau adolygiad archwilio Diogelu Corfforaethol i'w cyfeirio at y Pwyllgor Sgriwtineiddio Corfforaethol ar gyfer sgriwtineiddio.**

**Y Cynghorydd R.Llewelyn Jones**
**Cadeirydd**